# Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

## 8. Rheoli arian

## 8.9 Cronfa wrth gefn

### Beth yw cronfa wrth gefn elusen?

Mae'r Comisiwn Elusennau yn diffinio cronfa wrth gefn fel incwm a fydd ar gael i'r elusen i'w wario yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion yr elusen (incwm 'pwrpas cyffredinol') ond sydd heb ei wario, ei ymrwymo na'i ddynodi eto - mae 'am ddim'.

Nid yw hyn y cynnwys y canlynol:

- gwaddol parhaol
- gwaddol i'w wario
- cronfeydd cyfyngedig
- cronfeydd dynodedig
- cronfeydd incwm a ellir eu cyflawni'n unig drwy waredu asedau a ddalir i ddefnydd yr elusen.

### Dadl cronfa wrth gefn

Mae cronfeydd elusen wedi bod yn fater dadleuol am beth amser. Mae'r wasg wedi beirniadu llawer o elusennau mawr cenedlaethol am gasglu cronfeydd mawr o arian tra'n dal i apelio am arian ychwanegol. Hefyd, mae nifer o arianwyr yn edrych yn awtomatig ar fantolen y gronfa a ddangosir yn y cyfrifon blynyddol cyn penderfynu ar gymeradwyo ceisiadau ariannu.

Yn gyffredinol, tybir na ddylai mudiadau gwirfoddol gadw cronfeydd elusennol am amser hir gan fod y mudiad wedi derbyn yr arian i ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae bodolaeth cronfeydd yn arwydd o reoli adnoddau da. Mae angen lefel isafswm o gronfeydd ar unrhyw fudiad i ariannu anghenion y cyfalaf ar waith a'r cynlluniau wrth gefn a nodwyd yn y cynllunio.

### Polisi cronfeydd wrth gefn

Barn y Comisiwn Elusennau yw y dylai mudiadau gwirfoddol 'esbonio a chyfiawnhau' lefel y cronfeydd wrth gefn. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r mudiad lleiaf sy'n ymgeisio am ddiogelwch ariannol gael polisi cronfa wrth gefn.

Dylai polisi o'r fath sôn am:

- Y rhesymau dros gael cronfa wrth gefn.
- Lefel (neu ystod) y gronfa sydd angen ar yr elusen yn ôl yr ymddiriedolwyr.
- Pa gamau a gymerir gan yr elusen i sefydlu a chynnal y gronfa ar y lefel a gytunwyd (neu ystod).

Dylai hyd yn oed mudiadau bach gael polisi cronfa wrth gefn sy'n helpu arddangos:

- eglurder ac atebolrwydd i gefnogwyr
- rheolaeth ariannol dda
- cyfiawnhad am gyfanswm y gronfa

## Cynnwys y polisi cronfa wrth gefn

Mae gan nifer o elusennau bolisïau o'r fath yn barod, ond mae polisïau 'gwir' yn llai. Mae yna demtasiwn i ddweud 'Mae digon o gronfeydd wrth gefn gennym am weithgareddau tri mis; gadewch i ni wneud hynny yn bolisi cronfa wrth gefn', yn hytrach na gwneud amcangyfrif dilys o'r anghenion ac wedyn ymdrechu i gyflawni'r lefelau hynny.

Dyma'r materion y dylai'r polisi edrych arnynt:

- Y rhesymau pam fod angen cronfa ar yr elusen:
    - Datblygiad newydd?
    - Tanategu ymrwymiadau hir dymor?
- Pa drefniadau ar gyfer monitro ac adolygu'r polisi a wneir.
- Pa lefel o gronfa fydd angen ar yr elusen yn ôl yr ymddiriedolwyr.
- Pa gamau a gymerir gan yr elusen i gynnal y gronfa ar y lefel a gytunwyd.

## Gosod lefel y gronfa

Nid oes lefel terfynol y dylai mudiad ei gael. Os yw'n aelod o unrhyw fath o grŵp (megis corff ymbarél) gall helpu meincnodi yn erbyn aelodau eraill.

Er mwyn pennu maint cywir y gronfa, rhaid i ymddiriedolwyr edrych ar eu hadnoddau incwm a gwariant cyfredol a dyfodol, a gofyn:

- Pa mor debygol y bydd newid i'n ffynhonnell incwm?
- Sut fyddwn ni'n ymdopi os yw'n newid?
- Sut effeithir ar ein buddiolwyr?

Mae ymchwil y Comisiwn Elusennau ar elusennau bach a chronfeydd wedi darganfod mai'r technegau mwyaf poblogaidd a ddefnyddir i sefydlu lefel addas y gronfa oedd:

- drwy ddadansoddiad llif arian
- trafodaeth gyda rheolwr, trysorydd neu aelodau'r pwyllgor cyllid
- drwy archwilio tueddiadau'r gorffennol

Dylai'r mudiad o leiaf:

- Rhagweld yr incwm (dylid gwneud hyn beth bynnag fel rhan sylfaenol o gynllunio ariannol).
- Rhagweld y gweithgareddau a'r costau ynghlwm wrthynt.
- Ystyried anghenion a chyfleoedd y dyfodol, er enghraifft, posibiliad ehangu.
- Ystyried gwahanol senarios - gan ofyn 'Beth os' er enghraifft, os oedd newid ym mholisi'r llywodraeth yn effeithio ar eu gweithrediadau.

Unwaith y bydd syniad gan y mudiad am lefel y gronfa wrth gefn, gall gymharu hwn â'r gwir gronfa. Bydd mwyafrif y mudiadau yn wynebu diffyg, ond mae hefyd yn bosib i elusen hir-sefydlog, gael llawer iawn o gyfoeth.

Mae'r Comisiwn Elusennau yn trafod 'cronfeydd am ddim' (hynny yw, heb fod yn waddol parhaol neu'n gronfeydd cyfyngedig). Nid yw'n cwestiynu eu bodolaeth, ond mae'n gofyn am gyfiawnhad y lefel. Efallai na fydd swm enfawr yn y gronfa yn gwasanaethu amcanion yr elusen.

## Gwybodaeth bellach

Comisiwn Elusennau Lloegr a Chymru
Ffôn: 0845 3000 218
www.charity-commission.gov.uk

**Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â**

**Medrwn Môn**
*Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA*
**Elusen Gofrestredig** *1088828*

**Ffôn:** 01248 724944 post@medrwnmon.org
**Ffacs:** 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
**Wedi ei ddiweddaru:**01/12/2009

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk